WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad er Budd y Cyhoedd - Archwilio cyfrifon 2005-06 i 2009-10

## Cyngor Cymuned Mawr

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2011

**Cyfeirnod y ddogfen:** 533A2011

# Statws yr adroddiad

**Statws yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd**

Paratowyd yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd yn unol ag Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw swyddog, aelod neu unrhyw berson arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

# Cynnwys

Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiant yn y trefniadau llywodraethu a diffygion o ran rheoli ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Mawr.


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Methodd y Clerc â chyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli'r Cyngor yn ariannol | 6 |
| Methodd y Clerc â chyflawni ei gyfrifoldebau statudol i gadw'r cofnodion cyfrifyddu yn briodol | 6 |
| O ganlyniad i weinyddiaeth wael y Clerc mewn perthynas â threfniadau'r gyflogres, gwnaed gordaliadau a gwallau eraill a gallai'r Cyngor wynebu cosbau ariannol | 7 |
| O ganlyniad i'r trefniadau annigonol ar gyfer gweinyddu taliadau gan y Clerc, ni allaf gadarnhau dilysrwydd cyfran helaeth o gyfanswm gwariant y Cyngor | 10 |
| Methodd y Cyngor â chyflawni ei gyfrifoldebau i roi trefniadau llywodraethu a goruchwylio priodol ar waith i atal arian cyhoeddus rhag cael ei ddefnyddio mewn ffordd amhriodol neu wastraffus | 12 |
| Cyfrannodd dibyniaeth ar ymddiriedaeth a diffyg trefniadau goruchwylio gan aelodau at fethiannau rheoli ariannol | 12 |
| Mae prynu nwyddau a gwasanaethau heb dderbynebau ac anfonebau yn amhriodol ac yn golygu bod y Cyngor yn agored i achosion o dwyll a risgiau ariannol eraill | 14 |
| Mae'r Cyngor wedi methu yn ei ddyletswydd statudol i sicrhau bod trefniadau archwilio mewnol digonol ac effeithiol ar waith | 14 |
| Mae'r Cyngor wedi methu yn ei ddyletswydd statudol i gadw cofnodion priodol o'i drafodion a'i benderfyniadau | 15 |
| Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i adennill TAW ar danwydd ar gyfer neuaddau lles Felindre, Craigcefnparc a Garnswllt nad ydynt o bosibl yn unol â rheolau Cyllid a Thollau EM | 15 |

| | |
|---|---|
| O ganlyniad i drefniadau llywodraethu a gweinyddu gwael yn y Cyngor, mae'r Cyngor wedi mynd i wariant diangen gwerth cyfanswm o £10,500 y gellid bod wedi'i osgoi | 16 |
| Camau a gymerwyd eisoes gan y Cyngor | 18 |
| Argymhellion | 18 |
| Y camau nesaf | 19 |

# Cyflwyniad

**1.** Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiant yn y trefniadau llywodraethu a diffygion o ran rheoli ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Mawr (y Cyngor). Credaf ei bod yn bwysig bod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol o'r digwyddiadau o fewn y Cyngor. Rwyf hefyd o'r farn ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd i wella trefniadau ac i sicrhau y caiff y risg y caiff methiannau llywodraethu o'r fath eu hailadrodd ei lleihau gymaint â phosibl. Mae gwersi i'w dysgu o ganfyddiadau'r adroddiad hwn, nid yn unig gan y Cyngor, ond gan bob cyngor cymuned yng Nghymru.

**2.** Mae cymuned Mawr yng Nghwm Tawe ac mae'n cynnwys pentrefi Felindre, Craigcefnparc a Garnswllt. Mae gan y Cyngor 12 o aelodau etholedig ac mae'n gwasanaethu poblogaeth o tua 1,800 o bobl. Mae'r Cyngor yn gwario rhwng £30,000 a £40,000 bob blwyddyn ar wasanaethau lleol. Ei brif ffynhonnell incwm yw praesept blynyddol o tua £30,000 ar Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Daw cyllid y Cyngor o arian cyhoeddus, ac etholir ei aelodau gan drigolion lleol. Felly, mae'r Cyngor yn atebol i etholwyr lleol Mawr.

**3.** Mae cynghorau cymuned fel Mawr, yn rhinwedd eu natur leol a'u maint bach iawn, yn dibynnu fel arfer ar un swyddog allweddol, sef y Clerc, i reoli eu materion gweinyddol. Yn amlach na pheidio, caiff y Clerc hefyd ei benodi fel Swyddog Ariannol Cyfrifol. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor o ddydd i ddydd. Yn arbennig, mae hyn yn cynnwys paratoi taliadau siec i'w llofnodi gan aelodau, cadw'r cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol. Bu Mr Robert King yn Glerc ac yn Swyddog Ariannol Cyfrifol i'r Cyngor ers mis Ebrill 2005.

**4.** Yn ôl y gyfraith (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (y Rheoliadau)), y Cyngor (sef yr Aelodau) sy'n gyfrifol am warchod cronfeydd y Cyngor, yn cynnwys sicrhau bod ganddo drefniadau rheoli ariannol effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldebau fel y canlynol:

- rhoi system rheolaeth fewnol neu rwystrau a gwrthbwysau ariannol priodol ar waith i'r Cyngor eu defnyddio i reoli ei arian o ddydd i ddydd;
- sefydlu swyddogaeth archwilio mewnol effeithiol;
- cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol eu harchwilio.

**5.** Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol benodi archwilydd allanol i'r Cyngor. Yn dilyn ymddeoliad yr Archwilydd Penodedig blaenorol ym mis Mawrth 2010, fe'm penodwyd yn unol â hysbysiad penodi archwilydd y Cyngor, a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf. Gwneir y penodiad hwn fel cyd-benodiad gyda Mazars LLP ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu 2006-07 i 2009-10.

**6.** Dechreuodd yr archwiliad statudol ar gyfer 2005-06 ddiwedd 2005 ac mae wedi cymryd cyfnod anarferol o amser i'w gwblhau. Yn rhannol, mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod y Clerc wedi cyflwyno'r cyfrifon blynyddol yn hwyr. Er enghraifft, ni chafodd cyfrifon 2004-05 a 2005-06 eu cymeradwyo gan y Cyngor a'u cyflwyno i'w harchwilio hyd nes mis Gorffennaf 2007. At hynny, roedd achosion rheolaidd o oedi rhwng yr adeg y cyflwynodd yr archwilydd penodedig blaenorol geisiadau am wybodaeth a'r adeg y byddai'r Clerc yn darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani i'r archwilydd. Fodd bynnag, mae hefyd yn amlwg i mi y gallai Swyddfa Archwilio Cymru fod wedi gwneud mwy i gwblhau'r archwiliad yn gynt, gan felly leihau effaith y materion a nodir isod ar y Cyngor. Ym mis Mehefin 2009, diwygiodd Swyddfa Archwilio Cymru ei phrotocol ar gyfer ymdrin â chynghorau cymuned anymatebol. Cafodd y protocol ei adolygu a'i ddiweddaru eto ym mis Hydref 2011.

# Methodd y Clerc â chyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli'r Cyngor yn ariannol

## Methodd y Clerc â chyflawni ei gyfrifoldebau statudol i gadw'r cofnodion cyfrifyddu yn briodol

**7.** O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru), rhaid i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol benderfynu ar y canlynol, ar ran y Cyngor, ar ôl ystyried arferion priodol:

- cofnodion cyfrifyddu, gan gynnwys ffurf y cyfrifon a'r cofnodion cyfrifyddu ategol;
- systemau rheoli cyfrifyddu.

**8.** Rhaid i'r cofnodion cyfrifyddu fod yn ddigon i ddangos trafodion y Cyngor a rhaid iddynt, ymhlith pethau eraill:

- fod yn ddigonol i sicrhau bod unrhyw ddatganiadau cyfrifyddu yn cydymffurfio â'r Rheoliadau;
- cynnwys cofnodion o ddydd i ddydd o bob swm o arian a gafwyd ac a wariwyd gan y Cyngor;
- cofnodi asedau a rhwymedigaethau'r Cyngor.

**9.** Rhaid i'r systemau rheoli cyfrifyddu, ymhlith pethau eraill, gynnwys y canlynol:

- mesurau i sicrhau y caiff trafodion ariannol y Cyngor eu cofnodi cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ac mor gywir ag sy'n rhesymol bosibl;
- mesurau i alluogi i anghywirdebau ac achosion o dwyll gael eu hatal a'u canfod;
- y gallu i ailgreu unrhyw gofnodion a gaiff eu colli.

**10.** Rhaid i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol hefyd sicrhau y cydymffurfir â'r safonau rheoli cyfrifyddu ac y caiff y cofnodion cyfrifyddu eu diweddaru'n rheolaidd a'u cadw'n unol ag arferion priodol.

**11.** Y Clerc yw Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor. Fodd bynnag, caiff prif gofnod cyfrifyddu'r Cyngor, h.y. y llyfr arian parod (llyfr derbynebau a thaliadau), ei ysgrifennu gan yr archwilydd mewnol yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan y Clerc. Caiff cyfrifon blynyddol y Cyngor hefyd eu paratoi gan yr archwilydd mewnol. Rwyf wedi gwneud sylwadau pellach ar y mater hwn ym mharagraffau 56 i 58. Fodd bynnag, er gwaethaf y trefniant hwn, erys y Swyddog Ariannol Cyfrifol, h.y. y Clerc, yn gyfrifol am y system gyfrifyddu.

**12.** Nododd fy archwiliad nifer o anghysondebau yn y llyfr arian parod a'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol, gan gynnwys:

- Nid yw cyfanswm y derbynebau a'r taliadau a gofnodwyd yn y datganiadau cyfrifyddu blynyddol yn cyfateb i'r derbynebau a'r taliadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod. Mewn rhai achosion, mae'r gwahaniaethau yn deillio o'r ffaith na chynhwyswyd TAW y dylid bod wedi'i chynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.
- Cofnodwyd rhif siec 102999 (a oedd yn daladwy i Gyllid a Thollau EM) yn y llyfr arian parod ar 31 Mawrth 2009. Fodd bynnag, y dyddiad ar y siec ei hun yw 5 Ebrill 2009. Rwyf wedi gwneud sylwadau pellach ar drefniadau'r Clerc ar gyfer gweinyddu taliadau ym mharagraffau 33 i 41.

**13.** Er gwaethaf y gwallau hyn, mae'r Clerc wedi ardystio bod y datganiadau cyfrifyddu yn cyflwyno derbynebau a thaliadau'r Cyngor yn ystod pob blwyddyn yn briodol.

## O ganlyniad i weinyddiaeth wael y Clerc mewn perthynas â threfniadau'r gyflogres, gwnaed gordaliadau a gwallau eraill a gallai'r Cyngor wynebu cosbau ariannol

**14.** Mae'r Cyngor yn cyflogi saith aelod o staff (y Clerc a gofalwyr a dirprwy ofalwyr ar gyfer pob un o'r tair neuadd gymunedol). Telir cyflog misol i'r Clerc a'r gofalwyr. Telir y dirprwy ofalwyr am un mis bob blwyddyn tra y bydd y gofalwr ar wyliau blynyddol. Gwneir taliadau ychwanegol ar gyfer absenoldeb salwch ac adegau eraill pan fydd y gofalwyr yn absennol. Fodd bynnag, nododd fy archwiliad yr anghysondebau canlynol yn y taliadau a wnaed.

### Cyflog y Clerc

**15.** Mae'r Clerc wedi datgan, yn ogystal â'i gyflog deuddeg mis, fod y Cyngor yn talu swm sy'n cyfateb i gyflog mis yn lle bod y Clerc yn cymryd gwyliau blynyddol. Ym mis Rhagfyr 2006, hysbysodd y Clerc y Cyngor mai 'hawl i gyflog gwyliau' oedd hyn a chafodd daliad am gyflog gwyliau ar gyfer 2005-06 a 2006-07. Fodd bynnag, nid oedd y trefniant hwn yn berthnasol i'r Clerc blaenorol a gyflogwyd yn 2004-05. Nid oes gan y Cyngor gofnod o gontract cyflogaeth y Clerc ac nid wyf wedi gallu nodi pa un a gytunodd y Cyngor ar y trefniant hwn gyda'r Clerc.

16. Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan y Clerc, yn ystod y cyfnod pum mlynedd o 2005-06 i 2009-10, roedd ganddo hawl i gael swm a oedd yn cyfateb i 65 o daliadau cyflog misol. Mae hyn yn cynnwys yr 'hawl i gyflog gwyliau' y cyfeiriwyd ato gan y Clerc. Yn ystod yr archwiliad nodais fod y Clerc mewn gwirionedd wedi codi swm a oedd yn cyfateb i 66 o daliadau cyflog misol yn ogystal â swm bach o dâl goramser.

17. Fel y nodir yn Nhabl 1 isod, yn 2006-07, cododd y Clerc swm a oedd yn cyfateb i 16 o daliadau cyflog misol gan gynnwys gordaliad cyflog net o £259:

**Tabl 1**

| | £ |
|---|---|
| Deuddeg mis o gyflog ar gyfer 2006-07 | 3,111.24 |
| 'Cyflog gwyliau' a oedd yn cyfateb i un mis o gyflog ar gyfer 2006-07 | 259.27 |
| Ôl-ddyledion cyflog ar gyfer mis Mawrth 2006 a dalwyd ym mis Ebrill 2006 | 259.27 |
| 'Cyflog gwyliau' a oedd yn cyfateb i un mis o gyflog ar gyfer 2005-06 | 259.27 |
| Taliad anhysbys | 259.27 |
| **Cyfanswm y taliadau net i'r Clerc yn 2006-07** | **4,148.32** |

18. Ym mis Chwefror 2010, talodd y Clerc oramser iddo'i hun am fynd i gyfarfodydd a oedd yn ychwanegol at ei oriau gwaith arferol. Fodd bynnag, ni chafodd y Cyngor wybod am y taliad hwn ac nis cymeradwywyd ganddo.

19. Dylid talu cyflog y Clerc fel arfer ar ddiwedd pob mis. Ac eithrio'r hawl i gyflog gwyliau a nodwyd, mae'r Clerc yn codi ei gyflog misol cyn y dyddiad dyledus yn rheolaidd. Mewn rhai achosion, cododd y Clerc ei gyflog fwy na mis cyn y dyddiad dyledus. Codwyd rhai taliadau cyflog olynol namyn diwrnodau ar wahân.

20. Fel cyflogwr, rhaid i'r Cyngor ddidynnu Treth Incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYGau) cyflogeion o gyflog cyflogeion ac anfon y symiau a ddidynnir i Gyllid a Thollau EM bob mis neu bob chwarter ynghyd â chyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr. Gelwir y system hon yn Talu Wrth Ennill (TWE). Caiff didyniadau TWE eu cofnodi ar daflenni gwaith Didyniadau P11 Cyllid a Thollau EM. Gellir talu didyniadau TWE i Gyllid a Thollau EM naill ai bob mis neu bob chwarter. Rhaid gwneud taliadau o fewn 19 diwrnod o ddiwedd y mis neu'r chwarter perthnasol.

21. Nododd fy archwiliad o daflenni gwaith didyniadau P11 Cyllid a Thollau EM ar gyfer y Clerc y canlynol:

- Nid yw amseriad taliadau cyflog y Clerc yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'r cyfnod y caiff ei gofnodi ar daflen didyniadau P11. Mae'r daflen didyniadau yn nodi y caiff cyflog y Clerc ei dalu yn unol â phatrwm misol rheolaidd.

- Ni chofnodwyd taliad goramser o £148.90 ym mis Chwefror 2010 ar daflen didyniadau P11.
- Ym mis Gorffennaf 2009, cafodd y Clerc swm a oedd yn cyfateb i ddeufis o gyflog. Fodd bynnag, roedd y didyniadau TWE a wnaed yn seiliedig ar dalu cyflog o fis yn unig.
  O ganlyniad, ni ddidynnodd y Cyngor £67.73 mewn treth a chyfraniadau YG y cyflogai o gyflog y Clerc.
- Er bod taflenni didyniadau P11 yn dangos bod treth wedi'i didynnu a bod llyfryn slipiau cyflog Cyflogwr Cyllid a Thollau EM yn nodi bod didyniadau TWE yn cael eu talu i Gyllid a Thollau EM yn rheolaidd, dim ond ym mis Ebrill 2010 y talwyd holl ddidyniadau 2009-10.

**22.** Gallai'r arfer hwn amlygu'r Cyngor i gosbau a thaliadau llog. Dylai'r Cyngor nawr adolygu'n fanwl y cyfrifiadau treth a chyfraniadau YG a wnaed gan y Clerc a chytuno ar unrhyw dandaliad gyda Chyllid a Thollau EM.

## Cyflogau'r gofalwyr

**23.** Mewn blwyddyn arferol, dylai cyfrifon y Cyngor ddangos 13 o daliadau cyflog misol ar gyfer pob neuadd, 12 ar gyfer y gofalwr ac un ar gyfer y dirprwy ofalwr. Gellir gwneud taliadau ychwanegol i'r dirprwy pan fydd y gofalwr yn sâl.

**24.** Nododd fy archwiliad fod sieciau'r gyflogres ar gyfer gofalwr neuadd Felindre yn cael eu talu yn enw'r Clerc. Esboniodd y Clerc mai'r rheswm am hyn yw nad oes gan y gofalwr gyfrif banc, a'i fod yn talu'r gofalwr mewn arian parod a gaiff ei godi o'i gyfrif banc personol. Esboniodd y Clerc fod angen dilyn y drefn hon am na fyddai banc y Cyngor ei hun yn caniatáu i'r Cyngor godi arian parod o gyfrif y Cyngor. Nid yw'r Clerc yn gofyn i'r gofalwr ddarparu derbynneb am y taliad arian parod. Felly, nid yw'n bosibl cadarnhau pa un a yw'r gofalwr wedi cael yr holl daliadau y cofnodwyd eu bod wedi'u gwneud.

**25.** Yn 2009-10, mae cyfrifon y Cyngor yn cofnodi cyfanswm o 16 o daliadau cyflog i'r gofalwr a'r dirprwy ofalwr, sef cyfanswm o £2,979, mewn perthynas â neuadd Felindre. Mae hyn mewn gwirionedd yn cyfateb i dalu 18 mis o gyflog.

**26.** Ym mis Rhagfyr 2009, darparodd y gofalwr dystysgrif feddygol yn cadarnhau na allai weithio. Ddeuddydd yn ddiweddarach, cododd y Clerc siec yn daladwy iddo'i hun, a oedd yn cyfateb i dri mis o gyflog y gofalwr. Noda cofnodion y Cyngor mai taliad am gyflog y gofalwr oedd y taliad hwn.

**27.** Fodd bynnag, dengys cofnodion y Cyngor fod y gofalwr eisoes wedi cael 11 mis o gyflog erbyn mis Rhagfyr 2009. At hynny, noda cofnodion y Cyngor bod y gofalwr wedi cael taliadau cyflog pellach ym mis Chwefror ac ym mis Mawrth 2010. Dengys cofnodion cyfrifyddu'r Cyngor fod y gofalwr wedi cael cyfanswm a oedd yn cyfateb i 16 o daliadau cyflog misol yn 2009-10, sef gordaliad o £662.

**28.** Mae'r Clerc wedi datgan bod rhai o'r taliadau wedi'u camddosbarthu fel taliadau a wnaed i'r gofalwr pan y dylid bod wedi'u cofnodi fel taliadau i'r dirprwy ofalwr. Fodd bynnag, nid yw'r Clerc wedi gallu darparu unrhyw ddogfennaeth i ategu'r honiad hwn.

### Trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar y gyflogres

**29.** Ni chyflwynir costau cyflogres manwl i'r Cyngor. Wrth gyflwyno'r rhestr o daliadau i'r Cyngor eu cymeradwyo, dim ond cyflogau'r Clerc a'r gofalwyr a nodir gan y Clerc. Ni chyflwynir cofnod o daliadau unigol, gan gynnwys taliadau goramser. Pe bai'r Cyngor wedi gweld y taliadau yn cael eu gwneud, byddai wedi gallu nodi'r ffaith bod taliadau yn cael eu gwneud yn amlach na bob mis a bod gordaliadau yn cael eu gwneud.

## O ganlyniad i'r trefniadau annigonol ar gyfer gweinyddu taliadau gan y Clerc, ni allaf gadarnhau dilysrwydd cyfran helaeth o gyfanswm gwariant y Cyngor

**30.** Bob mis, mae'r Clerc yn cyflwyno rhestr o 'gyfrifon i'w talu' i'r Cyngor. Caiff y rhain eu cofnodi yng nghofnodion y Cyngor. Ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol, gweithdrefn arferol y Cyngor yw cymeradwyo taliadau cyn i sieciau gael eu hysgrifennu a'u llofnodi. Am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 31 i 43 isod, byddai'n arfer da i sieciau gael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod lle caiff y taliadau eu cymeradwyo.

### Cymeradwyo taliadau

**31.** Yn ystod fy archwiliad, nodais amrywiol daliadau a wnaed nad ymddengys eu bod wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys taliadau arian parod lle na chafodd y Clerc unrhyw dderbynneb neu anfoneb. Rwyf wedi gwneud sylwadau pellach ar y mater hwn ym mharagraffau 38 i 43.

**32.** Nodwyd y mater hwn hefyd gan archwilydd mewnol y Cyngor.

### Cofnodi taliadau

**33.** Cofnod cyfrifyddu pwysicaf y Cyngor yw'r llyfr arian parod (llyfr derbynebau a thaliadau).

**34.** Yn ystod yr archwiliad, nodais er bod y llyfr arian parod yn cofnodi taliadau yn nhrefn rhifau siec, fod y dyddiadau a nodir yn y llyfr arian parod wedi cael eu nodi ar hap. Er enghraifft:

**Tabl 2**

| Dyddiad | Rhif y siec |
|---|---|
| 06/11/2008 | 102027 |
| 06/11/2008 | 102028 |
| 05/11/2008 | 102029 |
| 05/11/2008 | 102030 |
| 08/11/2008 | 102031 |
| 07/11/2008 | 102032 |
| 17/11/2008 | 102033 |
| 17/11/2008 | 102034 |
| 19/11/2008 | 102035 |
| 17/11/2008 | 102036 |

**35.** Mae'r Clerc wedi esbonio bod sieciau o bosibl yn cael eu hysgrifennu cyn cael anfoneb ac y cânt wedyn eu llofnodi a'u dyddio pan geir yr anfoneb wirioneddol a phan gaiff y taliad ei gymeradwyo. Mae'r Clerc hefyd wedi cadarnhau o bosibl bod sieciau yn cael eu llofnodi cyn iddynt gael eu paratoi. Fodd bynnag, dywed y cadeirydd blaenorol, y Cynghorydd TD Williams, i'r gwrthwyneb gan ddatgan mai dim ond yn ystod y cyfarfod lle y cymeradwywyd y taliadau y câi sieciau eu hysgrifennu. Rwyf wedi gwneud sylwadau pellach ar y mater hwn ym mharagraffau 48 i 51.

**36.** Mae'r arferion a fabwysiadwyd ar gyfer paratoi a llofnodi sieciau yn arwain at sefyllfa lle caiff sieciau eu cofnodi ar hap. Mae hyn yn rhan o batrwm ehangach o drefniadau gwael ar gyfer cadw cofnodion a methiant i gymhwyso rheolau mewnol, fel y nodir yng ngweddill yr adroddiad hwn.

**37.** Er mwyn rheoli cyllid y Cyngor yn briodol, mae'n hanfodol bod unrhyw sieciau a gaiff eu hysgrifennu a phob trafodyn arall yn cael eu cofnodi yn y llyfr arian parod adeg eu gwneud.

## Anfonebau, derbynebau a thaliadau arian parod

**38.** Er mwyn dangos dilysrwydd unrhyw daliad a wneir, mae'n hanfodol bod y Cyngor yn cadw digon o ddogfennaeth i ddangos y canlynol:

- pryd y gwnaed y taliad;
- i bwy y cyflwynwyd y taliad;
- am beth oedd y taliad.

Heb y wybodaeth hon, nid yw'n bosibl gwneud penderfyniad cadarn ar ddilysrwydd unrhyw daliad penodol.

39. Nodais yn ystod yr archwiliad mai dim ond 'derbynneb' a baratowyd gan y Clerc sy'n ategu taliadau yn aml.

40. Ar y cyfan, ni chaiff taliadau am dreuliau yr aeth y Clerc iddynt eu hategu gan anfonebau na derbynebau.

41. Yn ogystal, mae'r Clerc wedi prynu nwyddau a gwasanaethau (e.e. llogi bws mini a phrynu deunyddiau adeiladu) gan dalu ag arian parod ond heb gael derbynneb. Caiff y cofnod yn y llyfr arian parod ei 'ategu' gan daflen wedi'i theipio a gaiff ei pharatoi gan y Clerc. Er i'r Cadeirydd blaenorol allu cadarnhau dilysrwydd rhai o'r taliadau, nid yw'r taflenni wedi'u teipio a baratowyd gan y Clerc yn ddigonol i sicrhau dilysrwydd y taliadau.

### Taliadau a wnaed i'r Clerc

42. Telir llawer o'r sieciau yn enw'r Clerc fel ad-daliad am daliadau yr aeth iddynt ar ran y Cyngor. Yn 2009-10, daeth y taliadau hyn i gyfanswm o dros £2,700. Nid yw cofnodion y Cyngor, gan gynnwys y llyfr arian parod a bonion sieciau, yn cofnodi'r Clerc fel talai'r sieciau.

43. Mae'r arfer hwn, wedi'i gyfuno â'r diffyg derbynebau ac anfonebau ategol (a nodir uchod) yn golygu nad yw'n bosibl cadarnhau dilysrwydd y rhan fwyaf o'r taliadau a wnaed yn uniongyrchol i'r Clerc.

# Mae'r Cyngor wedi methu â chyflawni ei gyfrifoldebau i roi trefniadau llywodraethu a goruchwylio priodol ar waith i atal arian cyhoeddus rhag cael ei ddefnyddio mewn ffordd amhriodol neu wastraffus

## Cyfrannodd dibyniaeth ar ymddiriedaeth a diffyg trefniadau goruchwylio gan aelodau at fethiannau rheoli ariannol

44. Mae'r Rheoliadau yn dynodi'n glir bod y Cyngor yn gyfrifol am sicrhau a rhoi system rheolaeth fewnol gadarn ar waith sy'n cynnwys trefniadau rheoli ariannol digonol ac effeithiol (Rheoliad 4). Mae'r system rheolaeth fewnol hon yn cynnwys archwilio mewnol digonol ac effeithiol (Rheoliad 6).

45. Mae'r materion a nodwyd uchod ym mharagraffau 7 i 43 yn dangos bod y trefniadau rheoli ariannol a roddwyd ar waith gan y Cyngor wedi bod yn wan drwy gydol y cyfnod sy'n rhan o'r adolygiad. Yn ogystal, nododd fy archwiliad hefyd y meysydd pryder penodol canlynol:

- diffyg adroddiadau ariannol rheolaidd i'r Cyngor;

- methiant i gydymffurfio â rheolau statudol ar gyfer llofnodi sieciau ac aelodau'n llofnodi sieciau gwag, h.y. sieciau nad ydynt yn cynnwys manylion y talai a'r swm ac ati.

## Adroddiadau ariannol

**46.** Mae cofnodion y Cyngor yn cofnodi bod yr unig wybodaeth ariannol gadarn a gyflwynir i'r Cyngor yn cynnwys cyllideb a geir adeg pennu'r praesept blynyddol a rhestr o daliadau i'w cymeradwyo a gyflwynir ymhob un o gyfarfodydd y Cyngor. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, nid yw'r rhestrau hyn yn gyflawn.

**47.** Arfer da, a fabwysiadwyd gan lawer o gynghorau cymuned eraill o faint tebyg i Mawr, yw i'r Cyngor dderbyn adroddiadau rheolaidd, h.y. misol neu chwarterol, o incwm a gwariant o gymharu â'r gyllideb flynyddol. Pe byddai'r Cyngor wedi gofyn i'r Clerc am yr adroddiadau hyn yn ystod y cyfnod sy'n rhan o'r archwiliad, mae'n bosibl y byddai'r diffygion a gafwyd yng nghofnodion ariannol y Cyngor wedi cael eu nodi'n gynharach.

## Defnyddio sieciau

**48.** Mae Adran 150(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi y dylai dau aelod o'r cyngor lofnodi pob siec neu archeb arall i dalu arian gan gyngor plwyf neu gyngor cymuned.

**49.** Yn ystod y blynyddoedd ariannol sy'n rhan o'r archwiliad, dim ond y Cynghorydd TD Williams a'r Clerc a lofnododd sieciau'r Cyngor. Mewn un achos, yn groes i fandad y banc, nodais mai dim ond y Clerc a oedd wedi llofnodi'r siec. Mae'r trefniadau hyn yn golygu bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion statudol ar gyfer pob taliad a wneir drwy siec yn ystod y cyfnod sy'n rhan o'r archwiliad.

**50.** Nodais hefyd fod y Cynghorydd TD Williams wedi llofnodi nifer o sieciau ymlaen llaw (rhifau 1003177 i 103180). Mae'r rhain yn sieciau sydd wedi'u llofnodi ond nad ydynt yn cynnwys unrhyw fanylion am y talai ac ati. Mae'r Clerc wedi cadarnhau i dîm yr archwiliad fod y Cynghorydd TD Williams wedi mabwysiadu'r arfer o lofnodi sieciau heb fod y manylion wedi'u cwblhau neu heb weld dogfennaeth ategol ar gyfer y taliad. Yn lle hynny, roedd y Cynghorydd TD Williams yn dibynnu ar y Clerc i weithredu'n briodol. Nododd y Cynghorydd TD Williams mewn cyfweliad y byddai hyn yn digwydd ar adegau pan y gwyddai na fyddai ar gael i lofnodi sieciau am gryn amser.

**51.** Gallai'r arfer hwn amlygu'r Cyngor i golledion o ganlyniad i dwyll. At hynny, pe bai dogfennau ategol wedi cael eu hadolygu cyn gwneud taliadau, mae'n bosibl y byddai'r Cyngor wedi nodi drosto'i hun y materion a nodwyd gennyf o ran taliadau. Byddai hefyd wedi nodi bod cyflogau wedi cael eu talu'n gynnar ac wedi'u gordalu.

## Mae prynu nwyddau a gwasanaethau heb dderbynebau ac anfonebau yn amhriodol ac yn golygu bod y Cyngor yn agored i achosion o dwyll a risgiau ariannol eraill

**52.** Ym mis Ionawr 2010 a mis Ebrill 2009, llogodd y Cyngor ddau fws mini am gost o £30 fesul cerbyd, i gludo trigolion i brotestiadau yng Nghanolfan Ddinesig Abertawe. Ar bob achlysur, talodd y Clerc gyflenwr y cerbyd mewn arian parod gan adennill y costau gan y Cyngor. Nid oes unrhyw gofnodion ar gael i nodi cyflenwr y cerbydau. Mae'r unig dderbynneb ar gyfer y taliad ar ffurf taflen wedi'i theipio a baratowyd gan y Clerc. Fodd bynnag, mae'r Cynghorydd TD Williams wedi cadarnhau bod y bysys mini wedi cael eu llogi.

**53.** Mewn cyfweliad, nododd y Clerc nad oedd yn gwybod enw'r cyflenwr a bod y cyflenwr wedi gofyn am daliad mewn arian parod. Nododd mai'r Cynghorydd TD Williams a argymhellodd ddarparwr y bysys mini.

**54.** O dan amgylchiadau arferol, bydd cyflenwyr yn darparu anfonebau neu dderbynebau am gyflenwi gwasanaethau ac ni fyddant yn mynnu cael taliadau arian parod. Pan fydd hyn yn digwydd, dylai'r Cyngor ystyried pa un a yw'r cyflenwr yn bwriadu cadw'r trafodyn 'allan o'r llyfrau'. Os na fydd y cyflenwr yn cofnodi'r trafodyn, mae perygl na fydd unrhyw drefniadau yswiriant yn diogelu'r Cyngor ac y gallai fod yn atebol pe ceid damwain. Mae'r Clerc wedi nodi bod ei yswiriant personol yn cynnwys yswiriant i yrru unrhyw gerbyd gyda chaniatâd y perchennog. Nid wyf wedi cadarnhau pa un a oes gan y Clerc yr yswiriant defnydd busnes angenrheidiol y byddai ei angen i yrru wrth gynnal busnes y Cyngor.

## Mae'r Cyngor wedi methu yn ei ddyletswydd statudol i sicrhau bod trefniadau archwilio mewnol digonol ac effeithiol ar waith

**55.** Mae Rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o ran ei gofnodion cyfrifyddu a'i system o reolaeth fewnol. Diben trefniadau archwilio mewnol yw ystyried gweithgareddau'r Cyngor o ddydd i ddydd a rhoi sicrwydd mewn perthynas â hwy.

**56.** Er mwyn i drefniadau archwilio mewnol fod yn gwbl effeithiol, ni ddylai'r archwilydd fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd na'r broses o gadw cofnodion cyfrifyddu'r Cyngor. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r cyfnod sy'n rhan o'r archwiliad, mae'r Archwilydd Mewnol wedi llenwi'r llyfr arian parod gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan y Clerc ac wedi paratoi'r cysoniadau banc a'r datganiadau cyfrifyddu ar gyfer diwedd y flwyddyn.

**57.** Yn ei gyflwyniad i mi mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad hwn, nododd y Cyngor fod yr Archwilydd Mewnol, mewn blynyddoedd blaenorol, wedi cyflwyno adroddiadau yn cyfeirio at lawer o'r diffygion a amlinellir yn fy adroddiad. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth briodol i adroddiadau ac argymhellion a wneir gan yr archwilydd mewnol ac yn ymdrin ag unrhyw wendidau a nodir. Mae'r diffygion a nodwyd yn berthnasol i'r holl flynyddoedd sy'n rhan o'r archwiliad. Ymddengys fod y Cyngor wedi methu â chymryd camau priodol pan ddygwyd materion at ei sylw gan yr archwilydd mewnol.

**58.** Mae'r diffyg annibyniaeth a methiant y Cyngor i roi ystyriaeth briodol i'r adroddiadau a gyflwynwyd gan yr archwilydd mewnol yn golygu nad oedd gan y Cyngor system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol yn ystod y cyfnod dan sylw.

### Mae'r Cyngor wedi methu yn ei ddyletswydd statudol i gadw cofnodion priodol o'i drafodion a'i benderfyniadau

**59.** Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gadw cofnodion o'i drafodion. Rhaid i'r cofnodion hyn gael eu cofnodi mewn llyfr at y diben penodol hwnnw.
Rhaid i'r cofnodion gael eu llofnodi gan yr unigolyn sy'n cadeirio'r cyfarfod lle y caiff y cofnodion eu cymeradwyo.

**60.** Mae'r Cyngor yn cadw ei gofnodion mewn llyfr cofnodion â thudalennau rhydd. Yn ystod yr archwiliad, nodais nad yw'r cofnodion rhydd wedi'u rhifo mewn trefn, nad ydynt wedi'u blaenlythrennu na'u llofnodi. Mae llyfrau cofnodion â thudalennau rhydd yn gyfreithlon ar yr amod bod rhifau ar bob tudalen a bod y tudalennau wedi'u blaenlythrennu gan y person sy'n llofnodi'r cofnodion adeg llofnodi. Fodd bynnag, nid yw cofnodion na chânt eu llunio neu eu llofnodi yn unol â'r gyfraith, er enghraifft, yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn llys.

## Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i adennill TAW ar danwydd ar gyfer neuaddau lles Felindre, Craigcefnparc a Garnswllt nad ydynt o bosibl yn unol â rheolau Cyllid a Thollau EM

**61.** Caiff y neuaddau lles yn Felindre, Craigcefnparc a Garnswllt eu prydlesu i bwyllgorau rheoli'r neuaddau unigol. Yn unol â thelerau pob prydles, mae'r Cyngor yn gyfrifol am atgyweirio a chynnal a chadw strwythur yr adeiladau. Mae pwyllgorau'r neuaddau yn gyfrifol am waith cynnal a chadw rheolaidd y tu mewn i'r adeiladau. Hefyd, mae'r Cyngor yn darparu rhywfaint o gymorth ariannol i bwyllgorau'r neuaddau.

62. Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith gyda phwyllgorau rheoli pob neuadd i dalu biliau cyfleustodau ar ran pwyllgorau rheoli'r neuaddau. Mae pwyllgorau rheoli'r neuaddau yn ad-dalu'r Cyngor am y swm a dalwyd heb gynnwys y TAW. Mae'r Cyngor yn adennill y TAW gan Gyllid a Thollau EM ac yn talu'r balans hwn i bwyllgor y neuadd berthnasol.

63. Mae'r Clerc a'r cadeirydd blaenorol wedi cadarnhau mai diben rhoi'r trefniant hwn ar waith oedd sicrhau bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o'r adnoddau a oedd ar gael i'r gymuned gyfan. Fodd bynnag, fel rheol gyffredinol, ni all un parti adennill TAW ar wariant yr eir iddo ar ran corff arall.

64. Er mwyn osgoi cosbau posibl, dylai'r Cyngor sicrhau bod Cyllid a Thollau EM wedi cymeradwyo'r trefniadau hyn.

## O ganlyniad i drefniadau llywodraethu a gweinyddu gwael yn y Cyngor, mae'r Cyngor wedi mynd i wariant diangen gwerth cyfanswm o £10,500 y gellid bod wedi'i osgoi

65. Yn ystod yr archwiliad, nodais fod y Cyngor wedi gwario symiau sylweddol a oedd yn gwbl ddiangen ac y gellid bod wedi'u hosgoi. Roedd y gwariant hwn yn deillio o daliadau banc a llog a thaliadau cyflog gormodol.

### Llog a thaliadau banc

66. Drwy gydol y rhan fwyaf o'r cyfnod o 1 Ebrill 2005 hyd at 31 Mawrth 2010, roedd gan y Cyngor gyfrifon adnau cynilo â chyfanswm balans a oedd yn fwy na £10,000.

67. Er gwaethaf hyn, mae cyfrif cyfredol y Cyngor yn rheolaidd yn mynd i orddrafft. Weithiau, roedd y cyfrif cyfredol mewn gorddrafft am gyfnod o fwy na mis. O ganlyniad, codwyd taliadau banc o fwy na £2,720 ar y Cyngor. Yn ystod yr un cyfnod, enillodd y Cyngor ychydig dros £1,120 mewn llog ar y balansau adnau. Gellid bod wedi osgoi'r taliadau hyn drwy drosglwyddo arian o'r cyfrif cynilo. Nodir y taliadau ychwanegol hyn yn Nhabl 3 isod.

### Taliadau cyflog gormodol

68. Fel y nodwyd yn gynharach yn fy adroddiad, mae'r Cyngor wedi talu taliadau cyflog gormodol i'r Clerc (£259 yn 2006-07) a gofalwr Neuadd Felindre (£663 yn 2009-10). Nodir y gordaliadau hyn yn Nhabl 3 isod

**Tabl 3: Costau y gellid bod wedi'u hosgoi yr aed iddynt gan y Cyngor**

Rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2010, gwariodd y Cyngor £3,650 y gellid bod wedi'i osgoi

| Blwyddyn ariannol | Cyfanswm y costau y gellid bod wedi'u hosgoi £ | Gordaliad Cyflog £ | Llog a thaliadau banc £ |
|---|---|---|---|
| 2005-06 | 902 | | 902 |
| 2006-07 | 802 | 259 | 543 |
| 2007-08 | 501 | | 501 |
| 2008-09 | 465 | | 465 |
| 2009-10 | 980 | 663 | 317 |
| Cyfanswm | 3,650 | 922 | 2,728 |

*Ffynhonnell: Cyfriflenni banc, llyfr arian parod a chofnodion y gyflogres*

## Ffioedd archwilio

**69.** Mae'r ffioedd a godir ar gyfer yr archwiliad allanol statudol yn seiliedig ar raddfa ffioedd a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r ffioedd hyn yn seiliedig ar incwm a gwariant y Cyngor. Mae'r raddfa ffioedd yn tybio bod y Cyngor yn cyflwyno ei ffurflen flynyddol yn brydlon ac yn unol â gofynion yr archwilydd.

**70.** Yn seiliedig ar raddfa ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol, byddai ffioedd archwilio Cyngor Cymuned Mawr ar gyfer y cyfnod o 2004-05 i 2009-10 wedi dod i gyfanswm o £1,675.

**71.** Fodd bynnag, lle y bo angen i archwilydd allanol ymgymryd â gwaith ychwanegol er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol, mae'n ofynnol i'r archwilydd godi ffioedd ychwanegol fel y bo'n briodol.

**72.** Mae'r materion a nodwyd uchod wedi golygu y bu angen cryn dipyn o waith archwilio ychwanegol. Amcangyfrifaf fod y ffioedd archwilio ychwanegol, gan gynnwys ystyried cyflwyno adroddiad er budd y cyhoedd, yn dod i gyfanswm o £6,850.

## Cyfanswm y gwariant y gellid bod wedi'i osgoi

**73.** Gwerth cyfun y gwariant y gellid bod wedi'i osgoi yw £10,500.

## Camau a gymerwyd eisoes gan y Cyngor

**74.** Mae'n bwysig bod y Cyngor yn dysgu o'r digwyddiadau hyn. Rwyf ar ddeall bod y Cyngor eisoes wedi cymryd neu ei fod yn bwriadu cymryd camau i ymdrin â phob un o'r argymhellion uchod, gan gynnwys

- bydd y Cyngor yn penodi aelod i gysylltu â'r Clerc a'r Archwilydd Mewnol i sicrhau bod y cofnodion cyfrifyddu yn addas at y diben a'u bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd;
- caiff cyflogau a thaliadau eu cymeradwyo'n benodol yng nghyfarfodydd y Cyngor ar ôl cyflwyno rhestr o daliadau i'r Cyngor ymhob cyfarfod;
- daw'r arfer lle mae'r Clerc yn gwneud taliadau o'i arian personol i ben;
- caiff contractau cyflogaeth ysgrifenedig eu paratoi ar gyfer holl gyflogeion y Cyngor;
- caiff adroddiadau ariannol eu cyflwyno i'r Cyngor bob chwarter;
- caiff pob siec ei llofnodi gan ddau aelod;
- bydd y Cyngor yn adolygu'r trefniadau ar gyfer gwaith archwilio mewnol gyda'r archwilydd mewnol;
- bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol wrth baratoi ei gofnodion;
- bydd y Cyngor yn archwilio'r trefniadau ar gyfer adennill TAW ar y tanwydd a ddefnyddir gan Bwyllgorau'r Neuaddau.

## Argymhellion

**75.** Mae fy argymhellion i'r Cyngor fel a ganlyn:


| | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor adolygu natur ac ansawdd y cofnodion cyfrifyddu a sicrhau eu bod yn addas at y diben a'u bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac yn gyflawn. |
| A2 | Rhaid i'r Cyngor roi'r gorau i'r trefniadau presennol lle mae'r Clerc yn talu cyflog gofalwyr o'i arian ei hun ac yn adenill y swm priodol gan y Cyngor. |
| A3 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer talu'r gyflogres, gan sicrhau bod pob taliad yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor a bod llwybr archwilio llawn ar gyfer pob taliad cyflog. |
| A4 | Dylai'r Cyngor gadarnhau telerau ac amodau cyflogaeth pob aelod o staff gan gynnwys lefelau cyflog unigolion a dyddiadau pan gaiff cyflogau eu talu. |
| A5 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod pob taliad cyflog gan gynnwys taliadau TWE i Gyllid a Thollau EM yn cael ei dalu'n rheolaidd ac na wneir unrhyw daliadau cyn bod gan gyflogeion yr hawl i'r taliad hwnnw. |

| | |
|---|---|
| A6 | Dylai'r Cyngor sicrhau mai dim ond pan fydd anfoneb wedi'i derbyn ac y bydd y taliad wedi'i awdurdodi gan y Cyngor y caiff sieciau neu archebion talu eraill eu codi. |
| A7 | Dylai'r Cyngor adolygu'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r Cyngor am daliadau i'w cymeradwyo a sicrhau y rhoddir gwybod iddo am bob taliad a wneir. |
| A8 | Dylai'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael adroddiadau am wybodaeth ariannol fanwl yn nodi sefyllfa ariannol y Cyngor yn rheolaidd. |
| A9 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion adran 150(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 bod pob siec yn cael ei llofnodi gan o leiaf ddau aelod. |
| A10 | Rhaid i aelodau sicrhau na fyddant yn llofnodi sieciau nad ydynt wedi'u cwblhau'n llawn ac wedi'u hategu gan dderbynebau neu anfonebau priodol. |
| A11 | Rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith ar gyfer gwaith archwilio mewnol annibynnol, effeithiol er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru). |
| A12 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol i gadw cofnodion priodol o'i drafodion. |
| A13 | Dylai'r Cyngor adolygu'r trefniadau ar gyfer adennill TAW ar y tanwydd a ddefnyddir gan bwyllgorau'r neuaddau a sicrhau bod y trefniadau hyn wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Gyllid a Thollau EM. |

# Y camau nesaf

**76.** Mae Adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol yn awr i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn yn un o gyfarfodydd llawn y Cyngor o fewn mis i ddyddiad yr adroddiad hwn. Yn y cyfarfod, bydd yn rhaid i'r Cyngor benderfynu:

- pa un a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;
- pa un a ddylid derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad;
- pa gamau (os o gwbl) i'w cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.



Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig

8 Rhagfyr 2011

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk